

Macbeth

1. Yn nheyrnas y Brenin Duncan o'r Alban, mae dau Bendefig brenhinol – Macbeth a Banquo – yn dychwelyd o ryfel. Maent yn cwrdd â thair Gwrach sy'n proffwydoliaethu y bydd Macbeth yn cael ei goroni'n Frenin, ac y bydd disgynyddion Banquo yn Frenhinoedd.
2. Mae Macbeth yn ysgrifennu at ei wraig yn sôn wrthi am y broffwydoliaeth, ac mae hithau'n ei dehongli fel gorchymyn i ladd Duncan, oedd yn Frenin ar y pryd.
3. Mae Duncan a'i osgordd yn cyrraedd Castell Macbeth wrth i Macbeth a'r Arglwyddes Macbeth ddadlau p'un ai i'w ladd ai peidio.
4. Mae Macbeth yn lladd Duncan wrth iddo gysgu.
5. Ar y dechrau, caiff meibion Duncan eu beio am ei farwolaeth, ac maent yn ffoi mewn braw gan adael i Macbeth gael ei goroni'n Frenin.
6. Mae Macbeth yn trefnu i ladd Banquo. Mae e'n ofni bod ysbryd Banquo'n aflonyddu arno, ac aiff yn ôl at y gwrachod. Maent hwythau'n ei gysuro â rhagor o broffwydoliaethau ynghylch ei bŵer.
7. Mae ei ffrind, Macduff, yn dianc i Loegr i ofyn i fab Duncan – Malcolm – ddychwelyd ac ymladd yn erbyn Macbeth gan fod yr Alban yn dadfeilio dan ei deyrnasiad. Am y diffyg teyrngarwch hwn, mae Macbeth yn trefnu bod gwraig a phlant Macduff yn cael eu lladd.
8. Mae'r Arglwyddes Macbeth yn marw.
9. Daw Macbeth dan ymosodiad wrth i broffwydoliaethau'r gwrachod gael eu gwireddu fesul un.
10. Caiff Macbeth ei ladd gan Macduff, a choronir Malcolm yn Frenin.

Rhestr o Gymeriadau Macbeth

DUNCAN

Brenin da yr Alban, a lofruddiwyd gan Macbeth. Mae Duncan yn fodel o lywodraethwr rhinweddol, caredig a chraff.

MALCOLM

Mab hynaf Duncan, sy'n ffoi mewn braw gyda'i frawd Donalbain ar ôl i'w tad gael ei lofruddio. Daw Malcolm yn her ddifrifol i Macbeth gyda chymorth Macduff (a chefnogaeth Lloegr). Gallwn dybio y byddai'n teyrnasu'n deg, fel ei dad, a rhoi terfyn ar ormes Macbeth.

DONALBAIN

Mab Duncan a brawd iau Malcolm.

MACBETH

Cadfridog dewr a phwerus yw Macbeth, ac ef yw Pendefig Glamis; mae ei uchelgais i gipio'r goron yn ei sbarduno i lofruddio. Mae Macbeth yn fwy cartrefol ar faes y gad nag ydyw mewn gwleidyddiaeth, gan mai ei ffordd o ymateb i bob problem yw trais a llofruddiaeth. Fodd bynnag, nid yw Macbeth fyth yn gyfforddus yn ei rôl fel troseddwr. Ni all ddioddef canlyniadau seicolegol ei erchyllterau, yn enwedig ar ôl marwolaeth ei wraig annwyl.

BANQUO – Cadfridog

Y cadfridog dewr a bonheddig nad yw'n gadael i'w uchelgais arwain at deyrnfradwriaeth a thrais. Yn ôl proffwydoliaeth y gwyrachod, bydd plant Banquo'n etifeddu gorsedd yr Alban ond – yn wahanol i Macbeth – nid yw'n gweithredu ar hynny. Mae ysbryd Banquo'n aflonyddu ar Macbeth, gan ei atgoffa o'i euogrwydd.

MACDUFF

Pendefig o'r Alban sy'n gwrthwynebu brenhiniaeth Macbeth, ac sy'n dod yn arweinydd y crwsâd i ddiorseddu Macbeth. Pwrpas y crwsâd yw gosod y brenin cyfreithlon, Malcolm, ar yr orsedd, ond mae Macduff hefyd yn awyddus i ddial am y ffaith fod Macbeth wedi llofruddio'i wraig a'i fab ifanc tra oedd ef yn Lloegr yn ymgynnull byddin. Ni all fyth faddau iddo'i hun am adael ei deulu a'i weision yn ddiarnedd. Lladdwyd hwy, un ac oll.

LENNOX

ROSS

ANGUS – Uchelwyr o'r Alban sy'n ymuno â chrwsâd Macduff yn erbyn Macbeth.

MENTIETH

FLEANCE – Mab Banquo.

Mab Banquo, sy'n goroesi ymdrech Macbeth i'w lofruddio. Ar ddiwedd y ddrama, does neb yn gwybod ble mae Fleance. Efallai y bydd yn dychwelyd i reoli'r Alban, gan gyflawni proffwydoliaeth y gwrachod y bydd meibion Banquo yn eistedd ar orsedd yr Alban.

SIWARD

Iarl ll Northumberland, Sais sy'n cefnogi'r crwsâd i ddisodli Macbeth a gosod Malcolm yn Frenin yr Alban.

PORTHOR

Porthor meddw yng nghastell Macbeth.

SEYTON

Gwas Macbeth.

TRI LLOFRUDD

Grŵp o ddihirod a orfodwyd gan Macbeth i lofruddio Banquo, Fleance (na lwyddant i'w ladd), a gwraig a phlant Macduff.

YR ARGLWYDDES MACBETH

Gwraig Macbeth, menyw hynod o uchelgeisiol sy'n awchu am bŵer a statws. Yn gynnar yn y ddrama ymddengys mai hi yw'r gryfaf o'r ddau, wrth iddi annog ei gŵr i ladd Duncan a chipio'r goron. Fodd bynnag, ar ôl y tywallt gwaed, mae euogrwydd yr Arglwyddes yn arwain at orffwylledd. Mae ei chydwybod yn ei heffeithio i'r fath raddau fel ei bod, yn y diwedd, yn cyflawni hunanladdiad. Mae Macbeth a hithau mewn cariad dwfn â'i gilydd, a'u cyd-droseddu fel petai'n cryfhau eu hatyniad y naill at y llall.

TAIR GWRACH

Tri ffigur cyfriniol sy'n cynllunio drygioni yn erbyn Macbeth gan ddefnyddio swyndlysau, swyngyfaredd a phroffwydoliaethau. Mae eu proffwydoliaethau'n ei annog i lofruddio Duncan, i roi gorchymyn i ladd Banquo a'i fab, ac i gredu'n gibddall yn ei anfarwoldeb ei hun. Mae'n amlwg eu bod yn cymryd pleser gwrthnysig mewn defnyddio'u gwybodaeth o'r dyfodol i chwarae â, a dinistrio, bodau dynol. Maent yn cydnabod bod ganddynt hwythau feistri sy'n awdurdodi'r rhithiau.

DRYCHIOLAETHAU

Tair drychiolaeth wedi eu creu gan y gwrachod ar gyfer Macbeth. Pen arfog yw'r ddrychiolaeth cyntaf sy'n dweud wrth Macbeth y dylai ofni Macduff. Plentyn gwaedlyd yw'r ail ddrychiolaeth sy'n tawelu meddwl Macbeth. Plentyn yn gwisgo coron gyda choeden yn ei law yw'r trydedd ddrychiolaeth sy'n dweud nad oes gan Macbeth ddim i'w ofni.

ARGLWYDDI, UCHELWYR, SWYDDOGION, MILWYR, GWEISION A NEGESEUWYR



Shakespeare
Schools Festival

Macbeth

gan

William Shakespeare

Talfyriad ar gyfer Gŵyl Shakespeare Ysgolion

gan

Yr Athro Gwyn Thomas

FERSIWN 30 MUNUD

© Shakespeare Schools Festival (SSF)

"We are such stuff as dreams are made on."

Ers 2000 mae SSF wedi defnyddio gallu Shakespeare i rymuso 75,000 o bobl ifanc. Fel elusen, rydyn ni'n codi £500 i helpu pob ysgol i gymryd rhan. Mae rhoddion gan unigolion a busnesau lleol yn amhrisiadwy. I helpu mwy o bobl ifanc i wireddu eu breuddwydion, ewch i: www.ssf.uk.com/support

RHESTR O'R RHANNAU

Duncan BRENIN YR ALBAN

Malcolm
/Donalbain EI FEIBION

Macbeth CADFRIDOG YM MYDDIN Y BRENIN, BRENIN WEDI HYNNY

Banquo CADFRIDOG

Macduff

/Lennox

/Ross UCHELWYR YR ALBAN

/Angus

/Mentieth

Fleance MAB BANQUO

Siward IARLL NORTHUMBERLAND, SAIS

Porthor

Seyton GWAS MACBETH

Tri Llofrudd

Arglwyddes
Macbeth

Tair Gwrach

Drychiolaethau

Arglwyddi, Uchelwyr, Swyddogion, Milwyr, Gweision a Negeseuwyr

Golygfa 1

Lle diffaith¹ . Mellt a tharanau.

Tair GWRACH

GWRACH 1	Eto ynghyd, ein tair, pa bryd Yn nh'ranau, mellt neu law y byd?
GWRACH 2	Ar ôl yr hwrli-bwrli byr, Colli ac ennill y frwydr.
GWRACH 3	Hynny fydd cyn machlud haul.
GWRACH 1	Ym mha le?
GWRACH 2	Ar y rhos.
GWRACH 3	Yno i gwrdd â Macbeth
PAWB	Hyll yw'r teg, a theg yw'r hyll: Hofran yn yr aflan niwl a'r gwyll.

Diflannant

Golygfa 3

Rhos. Taranau.

Tair GWRACH

Clywir drwm

GWRACH 3	Drwm, drwm! Macbeth sy'n dod.
----------	----------------------------------

Daw MACBETH a BANQUO i mewn

MACBETH	Diwrnod mor atgas ac mor deg ni welais erioed.
BANQUO	Beth yw'r rhain mor wyw, mor wyllt yn eu dilladau? Rhai byw? Neu'n bethau y gall dyn eu holi?

¹ Yn yr Alban

MACBETH Dywedwch, os gallwch: pwy ydych chi?
GWRACH 1 Henffych Macbeth! Henffych i ti, Arglwydd Glamis! ²
GWRACH 2 Henffych Macbeth! Henffych i ti, Arglwydd Cawdor!
GWRACH 3 Henffych Macbeth! Wedi hyn byddi di'n frenin!

MACBETH yn sefyll o'r neilltu i ystyried ei lwc dda.

BANQUO *(wrth y GWRACHOD)*
Os gellwch chwi archwilio hadau amser,
A dweud pa rawn a dyfa
Dywedwch wrthyf finnau.
Nid wyf yn erfyn nac yn ofni
Eich ffafr na'ch casineb .

Wrth i'r GWRACHOD siarad, mae MACBETH yn dod yn ôl i wrando.

GWRACH 1 Henffych!
GWRACH 2 Henffych!
GWRACH 3 Henffych!
GWRACH 1 Llai na Macbeth, a mwy.
GWRACH 2 Nid mor hapus eto llawer hapusach.
GWRACH 3 Tad brenhinoedd, ond nid brenin:
Felly, henffych Macbeth a Banquo!

MACBETH Mi wn fy mod yn iarll Glamis;
Ond Cawdor? Mae iarll Cawdor eto'n fyw;
Ac nid yw bod yn frenin
Yn obaith y gallaf ei gredu,
Ddim mwy Cawdor.
Dwedwch, rwy'n erfyn arnoch.

Diflanna'r GWRACHOD.

BANQUO I ble mae nhw wedi diflannu?

² Dyma yw teitl presennol Macbeth

MACBETH Dy blant di'n frenhinoedd?

BANQUO Tithau'n frenin.

MACBETH Ac arglwydd Cawdor hefyd, onid felly'r oedd?

Daw ROSS ac ANGUS i mewn

ROSS Mae'r brenin wedi derbyn yn llawen, Macbeth,
Y newydd am dy lwyddiant.³
Gorchmynnodd imi d'alw di yn Arglwydd Cawdor!

BANQUO (*I'r neilltu*) Beth! All y diafol ddweud y gwir?

MACBETH Mae iarll Cawdor yn fyw: pam rwyt
Yn rhoi gwisg fenthyg amdanaf?

ANGUS Trais di-ben-draw, wedi'i gyffesu a'i brofi;
Hynny sydd wedi'i ddisodli.

MACBETH (*I'r neilltu*) Glamis, ac iarll Cawdor:
Mae'r mwyaf eto i ddod.

BANQUO (**Wrth MACBETH**) Yn aml, i'n denu i berygl,
Bydd offerynnau'r fall yn dweud gwirionedd wrthym,
Yn ein hennill â man bethau, i'n bradychu
Gyda'r canlyniad gwaethaf.⁴

Ânt allan

Golygfa 7

Yr un fath.

Daw MACBETH i mewn

MACBETH Os yw i gael ei wneud, gorau oll
Ei wneud yn gyflym.⁵

³ Mae'r Brenin Duncan wedi clywed am lwyddiant Macbeth yn erbyn Norwy a'i lwyddiannau mewn brwydrau eraill

⁴ Mae Banquo yn rhybuddio Macbeth fod y diafol yn gallu swyno pobl i ryw syniad ffals o ddiogelwch. Dyna sy'n digwydd i Macbeth, sydd yn y diwedd yn credu ei fod yn anorchfygol, ond daw i wybod ei fod wedi'i dwyllo (Act 5).

⁵ Bydd yn well cael diwedd ar lofruddio Duncan

(Oedi gan amau) Mae e' yma dan ymddiriedaeth
ddwbwl:

Yn gyntaf, gan fy mod i'n gâr a deiliad,
Dau beth sy'n gadarn groes i'r weithred:
Yna fel ei letywr a ddylai gau y drws
Rhag ei lofruddiwr,
Nid dwyn fy hun y gyllell...

Daw'r ARGLWYDDES MACBETH i mewn

Pa newydd?

YR ARGLWYDDES MACBETH Mae bron wedi gorffen swpera: Pam rwyd wedi
gadael y siambr?
Awn ni ddim pellach yn y mater hwn.
Oes arnat ti ofn?
Bod yr un yn dy weithred a'th wrhydri dy hun
Ag wyt yn dy ddymuniad?

MACBETH Rwy'n mentro gwneud yr oll all weddu i ddyn;
Nid yw'r un sy'n mentro gwneud mwy yn ddyn.

YR ARGLWYDDES MACBETH Pan fentraist wneud hynny, roeddet yn ddyn;
Ac i fod yn fwy nag oeddet, fe fyddet
Yn llawer mwy o ddyn.
Rwyf wedi rhoi sugn, a gwn
Mor dyner yw i garu'r baban sy'n fy ngodro -
Byddwn, tra oedd yn gwenu yn fy wyneb,
Wedi rhwygo fy nheth o'i geg ddiameddiffyn
A malu ei ymennydd, pe bawn i wedi tyngu
Fel rwyd ti wedi gwneud.

MACBETH Beth pe baem ni'n methu?

YR ARGLWYDDES MACBETH Ni, methu?
Ond iti anelu dy wrhydri i'w nod,
Ni fethwn ni ddim.
Beth na alli di a minnau ei wneud
I Duncan yn ddirybudd? Beth na allwn gyhuddo
Ei swyddogion gwirion⁶ ohono, a gaiff y dial am
ein concwest ni?

MACBETH Dylet eni gwrywod yn unig!
Ni ddylai dy anian ddi-ofn di greu
Dim byd ond gwrywod.

⁶ Maent yn cynllunio i feio'i warchodwyr meddw am y llofruddiaeth

Dos, a heria'r dydd ag ymddangosiad o sioe:
Rhaid i wyneb ffals gelu'r hyn mae'r galon ffals yn ei
wybod.

Ânt allan

Golygfa 8

Yr un fath, ychydig oriau'n ddiweddarach.

MACBETH

Ai dagr a wela i yma o fy mlaen
Dim gafael arnat?
Dagr y meddwl, creadigaeth ffug?
(yn cyffroi)
Rwyt yn fy arwain y ffordd roeddwn ar fynd,
A dyma'r arf roeddwn i'w ddefnyddio!
(mae'n cau ei lygaid, yna'n eu hagor dachefn)
Rwy'n dy weld o hyd;
Y weithred waedlyd sy'n dweud hynny
Wrth fy llygaid.
Mae cloch yn canu
Fe af fi ac fe wneir y peth: mae'r gloch yn gwahodd.
Paid ti â'i chlywed, Duncan, am ai cnul yw hi
I d'alw di i uffern neu i'r ne'.

ALLAN